

Cwrs Uwch – Uned Gyfoes (Mis Chwefror 2020):

Gwers i hyrwyddo a chyflwyno cyfres *Bang* – Nodiadau i'r Tiwtor

Nod y wers:

- Cyflwyno a thrafod cyfres ddrama drosedd *Bang*;
- Trafod dramâu trosedd ac arferion gwyllo;
- Ymarfer cymalau enwol pwysleisiol a hwn, hon a'r rhain, hwnna, honna a'r rheina;
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd.

Bydd y gyfres ddrama drosedd newydd 'Bang' yn cael ei darlledu ar S4C o nos Sul 23 Chwefror ymlaen. Bwriad y deunydd yma yw rhoi cyflwyniad i'r gyfres ac annog y dysgwyr sydd â diddordeb i'w gwyllo. Mae'n bosib cyflwyno'r elfennau yn y wers hon dros fwy nag un sesiwn.

1. Cyflwyniad – Port Talbot

Ewch dros yr eirfa cyn darllen y cyflwyniad sy'n cyfeirio at leoliad *Bang* ym Mhort Talbot. Yna gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bychain (3-4) i drafod beth maen nhw'n ei wybod am Port Talbot. Gofynnwch iddynt nodi'r pethau a'r bobl sy'n dod i'w meddwl yn y blwch. Yna dewch â'r dosbarth ynghyd i glywed beth roedd y grwpiau gwahanol wedi'i nodi.

2. Pobl Port Talbot

Gallwch wneud y gweithgaredd hwn fel cwis hwyliog. I ddechrau, rhannwch y dosbarth yn dimau (grwpiau bychain o 3-4 fyddai orau). Cyflwynwch yr ymadroddion sy'n defnyddio mai/taw a hwnna/honna a gofynnwch i'r timau ddefnyddio ymadroddion ar y patrwm hwn i drafod pwy ydy'r bobl yn y lluniau a nodi atebion y tîm ar un o'r taflenni gwaith. Pan fyddan nhw wedi cael cyfle i gynnig atebion ar gyfer y 12 llun, trefnwch fod y taflenni ateb yn cael eu cyfnewid rhwng timau. Ewch dros yr atebion, gan annog y defnydd o ymadroddion megis "Ro'n i'n meddwl mai _____ ydy hwn/hon, ond maen nhw'n meddwl mai _____ ydy e." Y tîm fydd wedi cael y nifer fwyaf o atebion cywir fydd yr enillwyr – penderfynwch chi ar wobwr addas!

Dyma'r atebion:

1. Anthony Hopkins
2. Michael Sheen
3. Peg Entwistle
4. Allan Martin
5. Rob Brydon
6. Geoffrey Howe
7. Richard Burton
8. Brian Flynn
9. Di Botcher
10. Dic Penderyn
11. James Hook
12. Banksy

3. Llenwi Bylchau – Cyflwyniad i Bang

Gofynnwch i barau fynd weithio trwy'r darn, gan roi'r arddodiaid cywir yn y bylchau. Ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth cyfan:

Drama drosedd wedi ei lleoli ym Mhort Talbot yw *Bang*. Prif gymeriadau'r gyfres gyntaf oedd Sam (dyn ifanc tawel oedd yn teimlo ar goll) a'i chwaer Gina (plismones uchelgeisiol). Roedd y gyfres yn dilyn Sam wrth iddo fe ddod i berchnogi gwn a'i ddefnyddio i droseddu. Yn ddiarwybod i Sam, roedd y gwn eisoes wedi cael ei ddefnyddio i ladd dyn busnes lleol a Gina oedd un o'r ditectifs oedd yn chwilio am y llofrudd. Tra oedden nhw'n chwilio am y llofrudd felly roedd Gina a'i chydweithwyr hefyd yn chwilio am berchennog y gwn - ei brawd hi.

Mae'r ail gyfres yn cychwyn gyda llofruddiaeth arall. Gina sydd wrth y llyw unwaith yn rhagor ond mae'n cael trafferth canolbwyntio ar yr achos gan fod Sam wedi cael ei ryddhau o'r carchar. Mae'r ymchwiliad i'r llofruddiaeth yn ein cyflwyno ni i gast o gymeriadau lliwgar newydd. Trwy'r cyfan, mae Gina'n gwneud ei gorau glas i fod yn gefn i'w brawd sy'n gwneud popeth yn ei allu i gadw draw o drwbwl.

Wedi i chi fynd dros y bylchau, gofynnwch i'r parau gwblhau'r ymarferion yn creu brawddegau ar batrwm "Drama drosedd wedi ei lleoli ym Mhort Talbot yw Bang." ac "Yn ddiarwybod i Sam, roedd..." Dewch â'r dosbarth ynghyd i gael clywed rhai o'r cynigion gan y gwahanol barau.

4. Cymeriadau Dramâu Trosedd

Mae'r gweithgaredd hwn yn debyg i'r cwis lluniau am bobl Port Talbot, ond bod y lluniau o gymeriadau allweddol mewn dramâu trosedd ac yn cael eu cyflwyno ar sleidiau *Powerpoint*. Gallwch gyflwyno hwn fel ail rownd i'r cwis gyda'r un timau'n trafod pwy ydy'r cymeriadau cyn cynnig eu hatebion – rhaid iddynt ysgrifennu eu cynigion ar bapur neu ar fyrddau gwyn bach cyn eu cyflwyno gyda "Dyn ni'n meddwl mai/taw _____ ydy hwnna/honna'r rheina." Unwaith eto, gallwch wobrwyo'r tîm buddugol!

5. Dramâu Trosedd Dwyieithog

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen trwy'r paragraff am ddramâu trosedd dwyieithog yn eu grwpiau. Cynigiwch gymorth yn ôl yr angen. Wedyn, ewch dros y cwestiynau yn y blwch **Siaradwch** a rhowch y dysgwyr ar waith yn eu grwpiau bach i holi ei gilydd. Os oes angen hybu'r drafodaeth, gallwch gyfeirio at gyfresi'r cymeriadau oedd ar y sleidiau *Powerpoint* a gofyn iddynt drafod pa rai o'r rheiny o'n nhw wedi eu gwyllo a beth maen nhw'n ei gofio amdanynt. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.

6. Ymarfer Geirfa

Gofynnwch i barau weithio trwy'r brawddegau yn gosod y gair mwyaf addas yn y blwch:

1. Mae Siân wedi bod yn ymarfer ers wythnosau – mae hi'n **benderfynol** o redeg yr hanner marathon mewn amser da.
2. Pan ddes i'n ôl i'r gwaith ar ôl wythnos o wyliau, roedd cannoedd o **negeseuon** e-bost yn aros amdana i.
3. Mae gen i **atgofion** melys iawn o fy nyddiau ysgol – ro'n nhw'n ddyddiau da i fi.
4. Dw i ddim yn hoff iawn o ddilyn arweiniad rhywun arall – mae'n llawer gwell gen i fod wrth y **llyw** fy hun.
5. Roedd Ben wrth ei fodd pan dderbyniodd **wahoddiad** i barti pen-blwydd ei hen ffrind ysgol.

7. Gwylio a Gwranddo - Bang

Dangoswch y clip fideo sy'n rhoi rhagflas o bennod gyntaf y gyfres nwydd fydd yn cael ei darlledu o 23 Chwefror. Wedi dangos y clip unwaith, rhwch gopi o un o'r cardiau sy'n rhoi proffil cryno o'r cymeriadau i bob dysgwr (yn yr Atodiad). Gofynnwch iddynt drafod mewn grwpiau bychain (3 yn ddelfrydol) a pharu'r proffiliau gyda'r lluniau o'r actorion sydd ar y daflen waith.

Dangoswch y fideo eto a gofynnwch i barau geisio llenwi'r bylchau yn y brawddegau sy'n dod o'r clip:

- a. Cer **mewn**. 'Sdim rhaid i ti aros am **wahoddiad**.
- b. Mae'n **agos** i'r *station*, wi'n gallu **cerdded** i'r gwaith os wi'n **codi** mewn pryd.
- c. Bydde'n *caseworker* i 'di gallu **sorto ma's** rhywle i fi.
- ch. Gerddes i **ma's**. Nath **neb** stopo fi.
- d. Sori o'n i ffili **bod** 'na. Odd rhaid i fi fynd â'r car i'r garej peth **cynta** ac odd llwyth o **negeseuon** yn aros amdano i yn y gwaith.
- dd. Clywais i fod pethe'n **fishi** yn y *station* 'fyd.

Gofynnwch wedyn iddynt ysgrifennu'r brawddegau uchod mewn Cymraeg mwy ffurfiol. Dyma atebion posib:

- a. Cer i mewn. Does dim eisiau/angen i ti aros am wahoddiad.
- b. Mae'n agos i'r orsaf/i swyddfa'r heddlu, dw i'n/rwy'n gallu cerdded i'r gwaith os ydw i'n codi mewn pryd.
- c. Byddai fy ngweithiwr achos wedi gallu trefnu rhywle i fi.
- ch. Cerddais i allan. Wnaeth neb fy rhwystro i.
- d. Mae'n ddrwg gen i fy mod i'n methu bod yna. Roedd eisiau/angen mynd â'r car i'r garej peth cyntaf ac roedd llwyth o negeseuon yn aros amdana i/amdanaf yn y gwaith.
- dd. Clywais i fod pethau'n brysur yn swyddfa'r heddlu hefyd.

Trafodwch hefyd pa ymadroddion fyddai'n cael eu defnyddio yn eich ardal chi yn lle'r uchod.

Gofynnwch i'r parau gynnig brawddegau newydd ar batrwm '**Sdim rhaid/Sdim eisiau i ti aros am wahoddiad**' (neu fersiwn dafodieithol addas i'ch ardal chi) ar gyfer y sefyllfaoedd a amlinellir ar y daflen waith a/neu unrhyw sefyllfaoedd gwahanol. Dewch â'r dosbarth ynghyd i glywed enghreifftiau gan bob pâr.

Dangoswch y clip unwaith eto a gofynnwch i'r parau roi cynnig ar ateb cwestiynau 3-6 cyn mynd drostynt gyda'r dosbarth cyfan:

3. Enwch bum peth mae Gina wedi eu prynu i Sam?

Wardrob, dillad, brws dannedd, jel eillio, rasal

4. Beth oedd gŵr Caryn wedi'i ddweud wrthi, a pham??

- bod angen iddi hi gael bag oherwydd ei bod hi'n cario gormod o bethau mewn ffordd anhrefnus.

5. Pam mae hi'n arbennig o brysur yn swyddfa'r heddlu?

- oherwydd eu bod nhw wedi dod o hyd i gorff.

6. Ble mae Sam yn bwriadu mynd ar y diwrnod hwn?

Dydy e ddim yn bwriadu mynd i unman.

8. Siarad – Gwyllo Bang

Ewch dros y cwestiynau yn y blwch **Siaradwch** a rhwch y dysgwyr ar waith yn eu grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw gyfraniadau ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.

Atodiad – Cardiau Cymeriadau Bang

Gina (Catrin Stewart):

Ditectif uchelgeisiol sy'n gweithio i Heddlu Cwm Afan yw Gina. Mae'n benderfynol ac yn alluog. Mae'n drïw i'w gwaith ac yn mwynhau bod wrth y llyw. Mae'n rhoi cant y cant i'w gwaith ond mae'n teimlo'r pwysau o fod yn chwaer dda hefyd.

Sam (Jacob Ifan):

Mae Sam newydd adael y carchar. Mae'n benderfynol o ail-sefydlu ei hun ac yn ceisio am waith mewn gweithdy trwsio beiciau mynydd yng nghanol y goedwig. Mae Sam yn brwydro gydag atgofion o'i orffennol ac yn dioddef gyda salwch meddwl. Mae'n benderfynol o osgoi trwbwl ac adeiladu bywyd newydd i'w hun.

Caryn (Hedydd Dylan):

Caryn yw gweithwraig achos Sam a'i rôl hi yw helpu Sam i sefydlu ei hun wedi dwy flynedd yn y carchar. Mae'n cymryd ei gwaith o ddifrif ac yn gwneud ei gorau dros ei chleientiaid. Nid yw bywyd personol Caryn yn hawdd ac mae'n taflu ei hun i mewn i'w gwaith er mwyn peidio â phoeni am ei sefyllfa gartref.